



## Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

#### Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
<b>A</b>	<b>Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y gwasanaethau gofal cymdeithasol</b>	
1	Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella sut mae'r Gwasanaethau Plant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus, yn gywir, ac yn hawdd ei chyrrhu mewn gwahanol fformatau, a datblygu cysylltiadau â chyfeirlyfr gwasanaethau Dewis. Parhau i gryfhau'r cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol mewn perthynas â phlant ag anableddau.	Mawrth 2020
2	Yn dilyn yr adolygiad a'r ymgynghoriad ynghylch ein gwasanaeth anabledd, rydym yn gweithio tuag at fodel gydol oes ar gyfer anabledd er mwyn sicrhau pontio a llwybrau di-dor rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 1)</i>	Mawrth 2020
3	Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mor effeithiol â phosibl, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a gweithio gyda sefydliadau'r gymuned a'r trydydd sector, er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i unigolion. <i>MF5-52a (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)</i>	Mawrth 2020
4	Byddwn yn datblygu gwasanaethau i ymateb i'r cynnydd yn lefel y camddefnydd o alcohol ymhlith pobl dros 50 oed a'r effaith ar eu hiechyd a'u llesiant; gan gynnwys niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol, dementia alcoholig a chodymau. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)</i>	Mawrth 2020
<b>B</b>	<b>Byddwn yn hyrwyddo ac yn datblygu cysylltiadau cryf ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau</b>	
1	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i sicrhau bod cydlyniant cymunedol yn cael ei gydgysylltu ledled y rhanbarth.	Mawrth 2021
2	Byddwn yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a chyhoeddi'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, boed yn sioeau amaethyddol, yn wyliau, yn garnifalau, yn arddangosfeydd, yn gyngherddau neu'n berfformiadau. <i>MF5-85 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 a 14)</i>	Mawrth 2020
3	Byddwn yn gweithredu Llwybrau Celtaidd, sef prosiect ar y cyd a gyllidir rhwng Cymru ac Iwerddon sydd werth £1.7m, ac yn anelu at aliniad strategol llawn â menter Ffordd Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n deulu newydd o dri llwybr cenedlaethol sy'n eich arwain i galon y Gymru go iawn.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn datblygu ymhellach ddull y Cyngor o weithredu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ymhellach.	Mawrth 2021
<b>C</b>	<b>Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion</b>	
1	Byddwn yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gyfleusterau ysgol i gefnogi gweithgarwch cymunedol ehangach. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion 2, 8 ac 11) MF5-30</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn parhau i adolygu a gwella ein model a'n darpariaeth ar gyfer gwasanaethau Gofal Canolraddol. <i>(Hefyd yn Amcan Llesiant 10)</i>	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
3	Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol ac yn amddiffyn pobl agored i niwed rhag twyll ariannol drwy'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol ac yn datblygu trefniadau partneriaeth pellach mewn perthynas â chamfanteisio ariannol <i>(Hefyd yn Amcanion Llesiant 5 ac 11)</i>	Mawrth 2020
4	Byddwn yn defnyddio elw troseddau ar draws y gwasanaethau rheoleiddio i amddiffyn pobl.	Mawrth 2020
5	Byddwn yn ei gwneud yn hawdd ac yn ddeniadol i denantiaid y cyngor gyfrannu at lunio penderfyniadau strategol a gwella gwasanaethau, drwy gyfrannu a datblygu sgiliau tenantiaid perthnasol mewn ffordd ystyrlon.	Mawrth 2020
<b>D</b>	<b>Byddwn yn parhau i gefnogi Cymunedau Mwy Diogel gyda'n partneriaid</b>	
1	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cymunedau Sir Gaerfyrddin yn fwy diogel gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu y Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyffuriau Dosbarth A a Llinellau Sirol</li> <li>• Troseddau treisgar gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</li> <li>• Gwrthderfysgaeth</li> <li>• Seibrdroseddu</li> <li>• Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant</li> </ul>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i gyflwyno'r rhaglen Dovetail (Channel) ledled Cymru, sef dull newydd arfaethedig ar gyfer gweinyddu Channel, rhan o ddyletswydd gwrth-derfysgaeth Prevent.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion y gwasanaethau plant ac oedolion drwy ddarparu cyngor, cymorth a mewnbwn uniongyrchol i dimau rheng flaen. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 1)</i>	Mawrth 2020
4	Rydym yn sefydlu diwylliant o "fusnes pawb", lle mae gweithwyr proffesiynol yn perchnogi risgiau. Byddwn yn sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o hyn drwy sefydlu ymagwedd person-ganolog at ddiogelu sy'n sicrhau bod defnyddiwr y gwasanaeth yn cael ei glywed ac yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)</i>	Mawrth 2020
5	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at raglenni gweddnewid sy'n cael eu harwain gan iechyd ym maes iechyd meddwl ac ail-ddylunio gwasanaethau ym maes anabledau dysgu gan sicrhau bod gwasanaethau a chymorth gofal iechyd meddwl priodol ar gael. <b>MF5-57</b> <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 8 a 10)</i>	Mawrth 2020
6	Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu i staff eiddo trwyddedig, mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch.	Mawrth 2020
7	Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu i yrwyr ym maes cludiant, mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r Pedair Sir.	Mawrth 2020
8	Byddwn yn parhau nifer y dyddiau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i atgyweirio pob golau stryd diffygiol <i>(THS/009)</i> <span style="float: right;"><i>(Canlyniad 2018/19 – 3.98 o ddiwrnodau)</i></span>	4 o ddiwrnodau

### Mesur Llwyddiant Ychwanegol

**% yn dweud bod ganddynt synnwyr o gymuned** (Deillio o deimlad eu bod yn perthyn; gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch'.) *(Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)*

**Pobl yn teimlo'n ddiogel** (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio) *(Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)*